



Gwalch-wyfyfn hofrol *Macroglossum stellatarum* ar flodau'r triaglog goch *Centranthus ruber*

ar lannau'r afon Elorne yn Llydaw 2011

Ymwelydd cyson (cynyddol?) i Gymru o dde Ewrop yw'r pryf bach hynod hwn. Dyma rai o'r cofnodion yn Llên Natur:

16 Awst 1984: *One at carnation flowers in garden of Pencarreg, Barmouth* (Peter Benoit)

27 Mehefin 2000: DGH wedi cael humming-bird hawkmoth yn Bernina Llanfairfechan

10 Mehefin 2006: Humming-bird hawk moth ar Ynysoedd y Moelrhoniaid (Skerries) (RSPB)

28 Mehefin 2011: *There were dust blotches on the car windscreen here this morning. Coupled with Gill seeing a hummingbird hawkmoth in the garden...I thought there may be something interesting happening* (DB.). *Yes dust here two mornings* [llwch o'r Sahara] (DP).

Crib y pannwr

Pwyll pia hi efo *Dipsacus fullonum*. Dyma un o'r planhigion hynny sy'n gallu mynd yn ormod o bwdin. Gall gyrraedd yn ddi wahoddiad, ie dyna chi, chwyn mewn iaith blaen. Ond we! Sut yn union mae diffinio chwyn? Un o'r diffiniadau hwylusaf ydy galw unrhyw blanhigyn sy'n tyfu lle na ddylai fod yn chwyn. Dywediad da ydy hwnnw gan Roy Lancaster pan soniodd yntau am yr arch chwynnyn, yr 'estron gwyllt' o ddant y llew. Haerriad Roy Lancaster ydy petai dim ond hanner dwsin o flodau dant y llew yn tyfu ym mhen draw eithaf un o gymoedd mwyaf anghysbell China bell, mi fyddai pawb wedyn yn awchu i gael y 'troseddwr hy' yn harddu eu gerddi!



Planhigyn sydd wedi gweld sawl tro ar fyd ydy'r *D i p s a c u s fullonum*. Mae'n amlwg fod y Groegwyr wedi sylwi arno gan mai tarddiad yr enw *Dipsacus* ydy

syched neu'r cyflwr o fod yn sychedig. Tarddiad hynny ydy'r ffoliau naturiol rhwng bôn y dail a choes y planhigyn. Dyma le bydd dŵr a gwllith yn crynhoi, a lle bydd ambell i bryfetyrn yn boddi. Credir fod hyn yn rhan o amddiffynfa'r planhigyn yn erbyn pryfetach fel y pry gwyrrdd ac aflwydd gwaeth y pry du. Dyma bryfed sy'n sugno maeth o

wythiennau planhigion, felly gorau oll os caiff y cnafon eu boddi cyn cychwyn rheibio. Cafodd y ffoliau eu galw'n faddon Fenws gan y Rhufeiniaid ac ymolchfa Mair gan y Cristnogion cynnar yn Iwerddon.

Erbyn y ddeuddegfed ganrif roedd *Dipsacus fullonum* yn gnwd masnachol pwysig. Mae'n debyg mai dyna pryd cafodd yr enw cyffredin 'tease!' [o'r ferf "to tease", sef cribo] gan y Saeson a 'chrib y pannwr' gan y Cymry. Gogoniant yr enwau yma ydy'r ystyr sydd ynghlwm â nhw, ystyr sydd wedi ei wreiddio yn y diwydiant gwllân. Daeth ardaloedd yng nngogledd Lloegr yn ganolfannau pwysig ar gyfer tyfu cribau'r pannwr. Dyna pam fod chwech o gribau'r pannwr i'w gweld ar baisarf Kendal, a bod arwyddair y dref, 'pannus mihi panis' yn gyfystyr â 'phannu gwllân sy'n cyflenwi bara'. Am ganrifoedd lawer roedd pennau sych, miniog a bachog y *Dipsacus* yn rhan hanfodol o'r broses o roi gorffeniad cysurus i'r brethyn trwy 'godi'r' wlanan yn wawn meddal ar wyneb y garthen.


Heddiw, planhigyn addurniadol, talsyth a gwydn ydy'r *Dipsacus fullonum*. Dyna un farn. Dywed eraill ei fod yn dân ar groen ac yn feddiannwr cwbl ddigywilydd. Mae'r gwir, fel arfer, rhywle rhwng y ddau begwn yma. Mewn gardd anffurfiol sy'n hafan i fywyd gwyllt, mae'n blanhigyn sy'n gweddu i'r dim. Buan daw pob nico yn y gymdogaeth i wybod am y planhigion ac fe fydd hen ymryson am yr hadau. Os digwydd iddo gyrraedd yn ddiwahoddiad i ardd fechan, ffurfiol, cofiwdh da chi am y diffiniad o chwyn, ac am y ci gafodd ormod o bwdin.

Geraltt Pennant (ymddangosodd gyntaf yn Y Cymro)

I weld y ddau fath o grib y pannwr a sut oedd cribau'r pannwr yn cael eu paratoi at gribu gwllân ewch i Fwletin 34 <http://llennatur.com/files/u1/Cylchgrawn34.pdf>

Ynys lygod - ond pa fath o lygod?

Tynnodd Robin Evans (Cymdeithas Morol) ein sylw i enw ynys oddiar Moelfre, Môn. Dywedodd Robin, brodor o Foelfre, mai ei enw ef ar yr ynys oedd Ynys Swnt ac efallai ei bod hi'n cael ei chamenwi gan y Cymry yn Ynys Moelfre, a chan y Saeson yn *Rat Island*. Bytheiiodd am y peth nes gweld ar fap gan Lewis Morris dyddiedig 1748 mai Ynys Lygod oedd yr ynys iddo yntau hefyd. "Wel wel!" ebychodd - y Saeson yn rhyw led gywir? Ond cofiais innau hefyd am gofnod gan William Morris o ardal Llanelian i'w frawd Lewis ym 1762 i'r perwyl hwn:



"I warrant you have trouble In reaping your harvest. On Monday last, I had 3 men reaping all my corn, and not a little trouble did we have; Norwegian rats [*Rattus norvegicus* - y llygoden fawr cyfarwydd i ni heddiw] devouring it standing. That particular tribe was not here when you were living in our district. Perhaps they are the remainder of the Scandinavians who oppressed us in days gone by."



Ilun Alun Williams

Felly, beth oedd y llygod a roddodd eu henw i Ynys Swnt yn oes y Morrisiaid - llygod bach, ynteu llygod duon *Rattus rattus* - llygod y pla du sydd bron a mynd i ddifancoll erbyn hyn?

Cors anobaith

Ymhellach i "Gwern Uffern" Brynach Pari ym Mwletin 43, dyma, meddai Brynach, ddyfyniad o 'Noms de lieux de Bretagne', gan Jean-Yves Ier Moing: *Les marais du Yeun Elles ont la reputation d'être les portes de l'enfer depuis des siècles, car l'enfer celte est froide et humide dans les traditions*. Ystyrir corydd Yeun Ellez yn Llydaw fel pyrth uffern ers canrifoedd, gan mai uffern oer a gwlyb yw'r uffern yn y traddodiadau. (*An Ifern Yen - yr Uffern Oer*). Dywed hefyd yn yr un llyfr bod gwern hefyd yn Llydaweg yn disgrifio 'marais' sef cors, yn ogystal a'r goeden.

Brynach Parri

Cliciwch ar y ddolen isod i ymweld â'r wefan Yeun Ellez yn Llydaw:

<http://www.yeun-elez.com/>

Tom Thirgood

Heliwr slumod

30 Hydref 1992: Clogwyn Gallt y Wenallt, Nant Gwynant; grwp o tua 10 o slumod o gwmpas y clogwyn ac 1 - wedyn 2 - hebog tramor yn plymio amdan nhw, y fenyw bron a dal un ond methiant fu yn y diwedd - tua 16.50, fi a Marc Jones

O lyfr maes DB

Cyfle yma i gofio Marc, warden ar y Wyddfa, a fu farw yn sobr o ieuanc a thrasic.

Dualchas coitcheann - rhannu'r un treftadaeth

The Gaelic word for 'south' also means 'right'. The reason takes us back to the sun-worshipping practices of our ancestors, as Ruairidh MacIleathain reveals:


An àird a deas air an làimh dheis Bidh feadhainn a tha ag ionnsachadh na Gàidhlig gu tric a' gabhail iongnadh gu bheil an aon fhacal againn airson south agus right. ...

The Gaelic for the hermit crab is *partan tuathal*, literally the 'awkward crab'. *Tuathal* is connected with left and north, as well as being associated with awkwardness and wrongness. The word *partan* was borrowed by Scots speakers and is still used for 'crab' in the Scots dialect of the northeast. The key points of the compass in Gaelic recall the ancient practice of facing the rising sun in the east with the south therefore on the right hand [y deheubarth ar y llaw dde!]. East is *an ear*, originally meaning 'in front', and west is *an iar*, which meant 'behind'. Both terms are found in place names – for example, the Western Isles are *Na h-Eileanan an Iar* in Gaelic. The term for 'south' is *deas*, which also means 'right'. The word is related distantly to the Latin *dexter* and therefore to the English 'dextrous', and has similar associations with correctness. It derives from the naturalness of sunwise motion (the sun moves from east to west through the south of the sky in the northern hemisphere). Sunwise, or clockwise, motion (called *deiseil* in Gaelic) is still seen in Gaelic culture as being more favourable than the opposite, which is known as *tuathal*. This comes from *tuath*, the Gaelic for north, which originally meant 'left'. *Tuathal* has suggestions of unnaturalness or awkwardness, as in *partan tuathal* ('awkward crab'), the Gaelic for the hermit crab. *Deas* and *tuath* are relatively common in the landscape – for instance, *Uibhist a Tuath* (North Uist) and *Uibhist a Deas* (South Uist). But in many areas of the *Gàidhealtachd*, you travel *suas gu deas* ('up south') and *sìos gu tuath* ('down north'), which is the opposite of what you'd say in modern-day English.

Ailargraffwyd o gylchgrawn Scottish Natural Heritage Haf 2011

...ac yn Llydaw

Dyma ddeigram gan y Llydawwr Dominig Kervegant o Dregarth, Bangor, yn dangos perthynas y cwmpawd



Llydewig a'r llaw chwith a'r ddeheulaw.

O gymryd y dwyrain yn hytrach na'r gogledd fel man cychwyn mae gogLEDD, sydd gytras á *kleiz* (chwith) y Llydaweg, [a tuath yn y Gaeleg?] yn dangos mai patrwm sydd yn cysylltu'r Gaeleg (uchod), y Llydaweg a'r Gymraeg yw hwn. Diolch i Dominig Kervegant am y deigram

Rhwng dau wely



Llun: Tom Jones

15/07/2006

Er fod yr afon Ddwryd a'r rhydau yn symyd yn ôl a blaen ar dywod y Traeth Bach, Harlech nid oedd yn mynd ond rhyw ychydig yma ac acw. Ond yn y flwyddyn 1816

[dyma'r "Flwyddyn heb Haf" gyda llaw, a ddilynodd ffrwydriad enwog llosgfynydd Tambora yn Ebrill 1815 ac a barodd i'r tywydd fod yn ansefydlog am beth amser wedyn] fe fu symudiad mawr lled eithriadol ac anesboniadwy yn hanes yr afon. Fe soniwyd eisoes fod ynys fechan gron ar ganol y traeth a thŷ annedd arni o'r enw "Ynys Giffan". Cyn 1816 yr oedd yr afon yn rhedeg o'r môr yr ochr agosaf i Dalsarnau i'r ynys ond un noswaith bu llif mawr, ac yn ddirybudd, fe drodd yr afon i ochr Minffordd i'r ynys ac ar yr ochr yma y mae wedi llifo am dros ganrif a hanner heb argoel ei bod am droi yn ol i'r hen wely. Yr oedd yn gofnodiad manwl mewn hen Feibl teuluaid ym meddiant un o hen deulu oedd yn yr ardal am yr amgylchiad yma.

Yr oedd hen forwr duwiol o'r enw Capten John Roberts wedi adeiladu tŷ ar y graig ar fin y morfa, i'r ochr hon i'r afon yn agos i Aber-ia. Enw'r tŷ oedd "Sandy Mount". Mae hyd yn oed ei adfeilion wedi mynd erbyn heddiw, y cerrig, mae'n debyg i adeiladu rhannau o Borthmeirion. Ar y noson ganwyd ei ferch y cymerodd yr afon y llam dieithr yma. Dyma fel yr oedd y cofnodiad yn fanwl ar dudalen yr hen Feibl. *'Jane, the daughter of John Roberts of Sandy Mount born December 24 1816, Saturday. The same night the channel came to the Northward Ynys Giffan to our sorrow'*

Y diweddar Trefor Davies trwy law Aled Elis gyda diolch



Map JA Steers o'i "The Coastline of England and Wales" (Cyh. CUP 1946) yn dangos gwely'r Ddwryd yn llifo i'r gogledd o Ynys Giffan rhagor na chanrif yn ddweddarach - fel y mae o hyd

Crytsach meddw

10 Hyd 1851: Y Lleuad yn llawn am 20m wedi 6 Boreu Hwyliais heddyw tua Fathry i Ffair Mihangel. Cafwyd spere fel arferol. Yr oedd digon o Grytsach yn Feddw, ond gwelais mwy lawer gwaith - daethym adref gyda'r tywyll nos yn sobr ac nid yn Feddw fel llawer. Dywornod niwlog trwy'r dydd, a thywyll yr awel yn wanaidd o'r West. Daeth y niwl yn Ddwrllyd gyda'r nos.

Dyddiadur Edward Evans, Parsele, Penfro (gyda diolch i Amgueddfa Werin Cymru)

Fala filoedd



Ffenestr siop Apple yn Toronto wedi ei gorchuddio â theyrngiadau i Steve Jobs

Dyma rai o enwau'r afalau sydd yn y llun ac yn tyfu yng ngerddi Erddig: Costard, Red Falstaff 1983, golden Noble 1820, Genet Moyle 1849, Cox's Orange Pippin 1825, Twenty Ounce 1844, Duchess's favourite 1700's, Cockpit Improved 1831, Reinette Canada, Dutch Codlin 1783, King's Acre Bountiful 1899, Coer De Boeuf 13C, Golden Spire, Winter Gem, Katy 1947, Mank's Codlin Devil 1975, 10 Commandments 1883, Orleans Reinette 1776, White Melrose 1831, Stamford Pippin 1858, Fenovillet rouge 1667, Miller's seedling 1848, Orange pippin, Rosemary russet 1831, Royal jubilee 1888, Court Pendu Plat 1613.

Ac meddai Twm Elias: "dywedid ge's i gan gyfaill o'r Almaen heddiw. yntau wedi ei weld mewn siop gyfrifiaduron yn Ynsoedd y Philipinau:

Tri afal a newidodd y byd: yr un fwytaodd Adda; yr un ddisgynnodd ar ben Newton a'r un cyfrifiadurol ddyfeiswyd gan Steve Jobbs Da 'te?'

Meddai Ifor Williams: Credir mai yn Almaty, Kasakstan oedd dechreuad yr afal. Mae afal Macintosh gyda llaw yn fath o afal go iawn, wedi ei enwi gan Albanwr - ac mae o'n un blasus hefyd.

Pôs y mis

Dyma un o'r trugareddau a "etifeddodd" y Llydawr Dominig Kervegant ar ôl i'w dad ymddeol a symud i fyw i dŷ mwy addas o'i ffermdy ym Mro Gwened, Llydaw. Oes yna declyn cyffelyb i'w gael yng Nghymru?

Atebion cyn y 15 Rhagfyr os gwelwch yn dda trwy'r botwm "Cysylltwch" ar y wefan. Bydd tocyn llyfr gwerth £10 yn aros fel arfer i'r cyntaf i gynnig yr ateb cywir (neu gyfleu pwrpas y teclyn yn gywir.

Ateb pôs Rhifyn 44 oedd o'r chwith i'r dde llew, hyena, a jackal. Yn anffodus ni chafwyd teilyngdod y tro hwn!



...mwy am y taglys arfor - a phôs arall o'r Alban

Yes, the plant story [Bwletin 43, tud 3] is quite well known – it is *Flùr a' Phrionnsa* in Gaelic. Now here's a puzzle for you. One of the names of a well known plant is *Fuath-mhuc* ('the thing detested by pigs'). Any ideas what it might be?! Wel chi fotanegwyr llenyddol, beth am gynnig ateb i'n cyfaill o ardal Inverness, Ruairidh Maclean. Pa blanhigyn sydd gas gan fochyn?

Heulog a braf iawn. Fuasai neb yn dymuno gwell. Felly y mae hi bob Nadolig.

Pry gwrldiau: o Mericia i Mercia...



Dyma'r ohebiaeth "Mwyar" (*Blackberry*) a gafwyd deufis yn ôl efo Sue Lindsay, o Solihull: *Ok what's this climbing up my curtains?* (SL). Dywedais (Gol.) nad oeddwn yn gwybod ond mod i'n adnabod rhywun a fyddai... Ymhelaethodd Sue: *Took it [sef y llun ar y chwith] last night. It looks like it has a tail coat on at*

the back with 3 black dots either side and 2 upper middle of its back. It's back legs are thicker and have a sort of round thick bit towards the ends. It walks very sedately!

A dyma ddywedodd John Bratton - y dyn fyddai'n gwybod: *It looks like Leptoglossus occidentalis. See www.britishbugs.org.uk Can you get the full details and send the record in to the recording scheme, please? Probably best to send the photo too, for verification, as I've never seen it. John [Bratton]*

Leptoglossus occidentalis
Western Conifer Seed Bug
Family: Coreidae

A very large and spectacular squashbug which has characteristic expansions on the hind tibiae and a white zigzag mark across the centre of the forewings. Native to the USA and introduced into Europe in 1999, it has since spread rapidly and during 2008-2010 influxes of immigrants were reported from the coast of southern England, with a wide scatter of records inland. The bug feeds on pines and is likely to become established here; nymphs have been found at several locations. It is attracted to light and may enter buildings in search of hibernation sites in the autumn. Adult: All year Length ~20 mm

Mae squashbug yng Ngeiriadur yr Academi fel pryf gwrldiau - er nad oes a wnelo'r rhywogaeth arbennig hon ddim a gwrldiau yn ôl pob son. Go dda Sue, cofnod a hanner!

Morghug adeiniog eto



Dod ar draws y morgrug yn heidio yn hwyr yn y flwyddyn achos y twywdd anarferol o dwym Ddydd San Mihangel, 29 Medi 2011 ar uchder y 2500 troedfedd. Roeddent yn dod allan o gopa cofeb i filwr oedd wedi ei ladd gan fellten yn y 60'au ar y Drws Bach ger Aran Fawddwy SH 863 213

Llun a sylw: Ieuan Roberts

Dyma'r dyddiad hwyraf eto i forguog adeiniog, sy'n curo hwn gan dri diwrnod: *On September 26th, 1946, saw Jackdaws hawking flying ants over Minehead* (Ewch i <http://lennatur.com/files/u1/Cylchgrawn42.pdf> i weld mwy)

A beth oedd dyddiad y fellten anffodus (Gol.)?

Y wasg gyntaf yng Nghymru...mwy

HOW A NAME IN THE NEWS EARNED PLACE IN



The Little Orme, with Craigside below.

N A recent issue of the Weekly News, mention was made of the debate whether the name Rhiwledyn was suitable one for a new housing estate at Craigside. Aberceny Council development and works committee fortunately show more awareness of the historic associations of the name Rhiwledyn than do Llandudno Town Council, who, apparently, have forgotten their own historical heritage.

It is unfortunate that an

Priests who ran secret press in a cave

Yn y ddau rifyn diwethaf cafwyd dau gynnig am y wasg gyntaf yng Nghymru - un yn y de ac un y gogledd - ac i gadw'r ddisgl yn wastad, y ddau yn ddilys yn eu ffordd. Ond dyma Gareth Pritchard yn pledio dros gydnabyddiaeth lawn i'r wasg anghyfreithlon mewn ogof ar Rhiwledyn, y Gogarth Fach, Llandudno (Bwletin 43, tudalen 1). Meddai Gareth:

Wel, fe fu bron i mi dagu dros fy Nghorn Fflecs wrth ddarllen Bwletin 44 Llên Natur wrth weld bod y Cardis tua Chastell Newydd Emlyn yn ceisio hawlio mai yn y dref honno 'roedd y wasg argraffu gyntaf yng Nghymru a hynny ym 1718. Deffrwch, bois bach! Rydach chi ymhell ar ei hol hi. Argraffwyd 'Y Drych Cristianogawl' (yn anghyfreithlon, mae'n wir) mewn ogof ar greigiau Rhiwledyn, Llandudno, ym 1587, rhyw 131 o flynyddoedd ynghynt!

Codi plac..

Yn anffodus, 'does ganddon ni ddim plac i gofnodi'r ffaith bwysig hanesyddol hon. A diolch yn fawr i Steve Roddick am roi'r syniad yn fy mhen...ymgyrch felly i godi plac! Ar hyn o bryd dim ond enw'r stryd 'rwyf yn byw ynddi, sef 'RHIWLEDYN' sydd yn cofnodi'r hanes. Bu'n frwydr hir gyda Chyngor Tref Llandudno rhyw 30 mlynedd yn ôl i gael yr enw yma yn lle rhywbeth hurt Saesneg.

Gareth Pritchard

8 creyr bach yn bwydo.




Gwarchodfa natur Aber Ogwen. Tachwedd 12.

Llun Alun Williams

Mae dyn yn gorfod pinshio ei hun weithiau! Pwy fasa wedi meddwl, deugain mlynedd yn ol, bod yna fashiwn olygfa i'w gael yn gyffredin yng Nghymru yn 2011 (Gol.)

Ers dechrau'r '60au bu adaryn yn cyfrif adar ar aberoedd mwyaf Cymru a Phrydain yn rheolaidd dros misoedd y gaeaf

CREYR BACH, TRAETH BACH, BAE TREMADOG



Dyma gyfiri'r creyr bach ar aber yr afonydd Dwyrdd a Glaslyn, sef y Traeth Bach ger Harlech. Fe ymddangosodd gyntaf yng ngeaef 1993-4 pan gyfrifwyd dau aderyn. Erbyn 2006-7 roedd y cyfrif wedi cyrraedd 15.

Aros mae'r Mynyddfawr

Sut cafodd ein mynyddoedd eu henwau? Pwy tybed benderfynodd alw'r Wyddfa yn 'Yr Wyddfa' a Drygarn Fawr yn 'Drygarn Fawr'? Mewn gwledydd totalitariaidd mae gwleidyddion yn enwi mynyddoedd ar sail wleidyddol, ac yn ddiweddar enwyd mynydd yn Kyrgyzstan ar ôl Vladimir Putin. Ni fuasai'r ffasiwn beth byth yn digwydd yng Nghymru wrth reswm... er, os cofiwch, ychydig fisoedd yn



Llun: Gill Brown

ôl fe benderfynodd y Gweinidog Treftadaeth mai priodol fyddai rhoi enw newydd i'r Garnedd Uchaf yn y Carneddau a'i henwi yn Carnedd Gwenllïan oherwydd bod yna 'gysylltiadau hanesyddol dwfn â theulu brenhinol Gwynedd'.

'Trech gwlad nag arglwydd' meddai rhyw hen air – tybed? Os edrychwyf trwy fy ffenestr gallaf weld dau fynydd yn gwarchod dros Nant y Betws a dyffryn yr afon Gwryfai, y naill yw Moel Eilian (yn ôl trigolion lleol, ond Moel Eilio yn ôl y mapiau – mater i'w drafod rywbryd eto) a'r llall yn ymddangos fel horwth o eliffant a'i drwnc yn sipian o ddŵr Llyn Cwellyn. Yr Eliffant yw'r enw cyffredin a roddir arno, ond ar fapiau Arolwg Ordnans (SH 539 546) ceir Mynydd Mawr fel enw mwy syber a swyddogol. Serch hynny Mynyddfawr ac nid Mynydd Mawr yw'r enw parchus a roddir arno'n lleol – neu o leiaf dyna'r enw a arferid gynt gan drigolion yr ardal, mae dylanwad yr hyn a welir ar fapiau swyddogol yn gryf ar yr hyn sy'n cael ei ddweud.

Pa dystiolaeth heblaw mympwy bersonol a allaf ei gynnig dros Mynyddfawr? Arferai fy nhad a anwyd ac a fagwyd yn y Waun-fawr gyfeirio at y mynydd fel Mynyddfawr (a'i ynganu M'nyddfawr, gyda'r acen ar yr -ydd-). Un arall a fagwyd yn y Waun ddechrau'r ugeinfed ganrif oedd yr athronydd a'r ysgolhaig Hywel D Lewis; yng nghanol y chwedegau bu'n traddodi Darlithoedd Gifford ar *Freedom and Alienation*, ac yn ei ragymadrodd mae'n sôn am ei fachgendod yn yr ardal:

'Moel Eilian had spewed up at some time from the

volcanic depths of what is now the very deep Cwellyn Lake and from the vast crater in the side of the other mountain, Mynyddfawr — Elephant Mountain for us.'

Yn ei hunangofiant Y Lôn Wen (1960) mae Kate Roberts yn sgrifennu:

'Ar lechwedd brynïau Moeltryfan a Moel Smatho* y gorwedd yr ardal, a thu hwnt i'r ddau fryn yma y mae Mynyddfawr (ynganer fel un gair a'r acen ar y sill olaf ond un), yr eliffant hwnnw o fynydd'.

[*Moel Smytho ar y mapiau – enw arall i'w drafod efallai.]

Yr wyf wedi gweld o leiaf dair enghraifft yn ysgrifau T H Parry-Williams:

'a diffwys cwtterog Mynyddfawr yn anesgor o sefydlog'

'Drws-y-Coed' yn Synfyfyrion (1937)

'yr olwg ehangfawr a geir dros wyneb y llyn ar lechwedd y Planwydd a moel y Mynyddfawr a chlogwyn Castell Cidwm yr ochr draw.'

'Y Tri Llyn' yn O'r Pedwar Gwynt (1944)

'neu Ddrws-y-coed-gwaith, fel y byddem ni'n galw'r pentref sydd rhwng troed y Garn a sodlau'r Mynyddfawr'

'Aur Drws-y-Coed' yn Pensynnu (1966).

Mae Alun Llywelyn-Williams yn ei lyfr Crwydro Arfon (1959) yntau yn sgrifennu: 'a Chraig y Bera a'r Mynyddfawr ar y llaw arall'.

I fwydro a chymhlethu rhagor ar y mater mae George Borrow yn ei lyfr Wild Wales (1862), wrth sôn am ei daith o Gaernarfon i 'Beth Gelert', yn dweud:

'a noble hill called Mount Eilio appeared before me to the north; an immense mountain called Pen Drws Coed lay over against it on the south, just like a couchant elephant'

ac wedyn:

'and Pen Drws Coed. The latter, that couchant elephant with its head turned to the north-east, seems as if it wished to bar the pass with its trunk'.

Mae'r cyd-destun yn dangos mai Mynyddfawr yw Pen Drws Coed yn hytrach na Mynydd Drws y Coed sydd ymhellach i'r de ar Grib Nantlle; wn i ddim a oes ffynonellau eraill yn defnyddio'r enw yma ar y mynydd, ond ni chlywais i erioed neb yn gwneud hynny.

Felly ymddengys yn ddigon clir i mi mai Mynyddfawr ac nid Mynydd Mawr a ddylai fod ar y mapiau, a dichon mai rhyw orgywiro gan rywun oedd sgrifennu Mynydd Mawr. Clywir ambell un yn dadlau mai enw gwrywaidd yw mynydd ac felly na ddylid treiglo'r ansoddair ar ei ôl. Mae'r gair mynyddfawr yng Ngeiriadur Prifysgol Cymru fel ansoddair gyda'r diffiniad 'Enfawr fel mynydd'. Pan yw ansoddeiriau cyfansawdd yn cael eu ffurfio o enw + ansoddair fe dreiglir yr ail elfen yn feddal, boed yr enw yn wrywaidd neu yn fenywaidd (e.e. penboeth, coesgoch), a gellir defnyddio ansoddeiriau felly fel enwau.

J P M Jones



Enwau "anifeiliaidd" y Gogarth

Fe welch rhyw 13eg o enwau yn gysylltiedig ag anifeiliaid:- Llety'r Filiast, Llwyn yr Ychen, Hwylfa'r Ceirw, Ffridd y Wigod, Cilfin Ceirw, Bwlch Llwynog, Lloches yr Afr, Braich y March, Llwybr Mulod, Ogor Arth, Ogor yr Eliffant, Ogor Pryf Llwyd, Ffynnon Gaseg, Pen Llyffant, Ogor Colomennod a Maes y Facrell.

Diolch i Sally Davies o Barc Gwledig y Gogarth am ganiatad i addasu'r map gwreiddiol ac i Tom Parry am ei gymorth parod gyda'r enwau anifeiliaid.

Yr esboniad cywir am Maes y Facrell yw mai o 'Maes y Fagwyr Allt' (fortified hill) y daw'r enw. Esboniad arall a roddir yw 'bod 'macrell' wedi ei newid o 'Marcellus'- enw cadfridog Rhufeinig.. Go annhebyg yw'r ystyr 'mecryll' gan y buasai wedi golygu cario'r pysgod i ben y 'mynydd i'w sychu!

Gareth Pritchard

Enwau ar y gwningen a'r ysgyfarnog..mwyr

Dyma sylwadau bach i'w chwanegu at yr erthygl ddfyfr ar gwningod : *iepure* yw'r gair Rwmaneg am gwningen yn ogystal â sgwarnog; mae'r gair yn deillio'n hollol reolaidd o ffurf Ladin megis *lepore* (m), sy'n digwydd ymhob un o'r ieithoedd romanaidd eraill yn eu hamrywiol ffurfiau Ffr. *lièvre*, Sb. *liebre* ond y cwbl yn golygu sgwarnog yn unig gan fod y rhan fwyaf ohonynt wedi cadw'r gair Lladin fel y Gymraeg ar gyfer y gwningen. Wni ddim beth fydd Rwmaniaid yn galw cwningen wyllt, ond *iepure de casa* ydi un ddof, h.y. sgwarnog ty. Yn ôl y Geiriadur Beiblaidd, *Hyrax Syriacus* [sic] yw "cwningen" y Beibil, creadur digon tebyg i fochyn cwta. Mae'n debyg fod yr enw "rock badger" hefyd ac mae llyfr Henriette Walter *Les Noms des mammifères* yn dangos fod elfen sy'n golygu craig neu garreg yn rhan o'i enw yn yr Almaen a gwledydd Llychlyn.

Wmfra Wmfra, (Llydaw)

Griff sêr - dau gwestiwn

1) Ai sbarion ar ôl i lyffant gael ei rheibio gan greyr neu ddyfrgi yw griff sêr? Onid ydi Hydref/Tachwedd (misoedd y gwneid llawer o'r cofnodion) yn rhy gynnar i ffurfio'r griff a fydd yn cael ei fwrw ym mis Ionawr a Chwefror yn y rhan hon o'r byd? Mae'n debyg Debbie Evans (isod) dyddiedig 20 Oct yn cadarnhau bod y llyffant yn cario'i griff o fis Hydref ymlaen o leiaf. Atebodd Debbie fel hyn:

I think this demonstrates that the female frog must be carrying the embryonic eggs and jelly much earlier than the spawning time, (presumably they develop before she goes in to hibernation over the winter). The jelly would only expand when out of the frog. 2) Dydi "griff sêr" (beth bynnag ydi'o) ddim yn arbennig o gysylltiedig â chynefin creyr neu ddyrgi (megis canol cae?). Beth arall allasai fod? Debbie eto: *I would not worry too much about the herons as lots of other things eat frogs and would also avoid the jelly.* Ewch i Fwletin 11 i gael trafodaeth ac ychydig o Lên Gwerin gan Steffan ab Owain am y sylwedd rhyfedd hon.



Llun Debbie Evans dyddiedig 20 Hydref

Tamaid i aros pryd

Dyma ymholiad a ddaeth yn dweddar i wefan Llên Natur. "Beth am hon/hwn - Maen Magal/ Adder's stone? Lle ydw i i roi hwn i mewn i'r wefan. Tydi o/hi ddim yn dod dan Pethau Byw. A chlywais i erioed am dano/dani".

Dyma ddywedodd Twm Elias: "beads' gwydr, efo arlliw glas a gwydr o liw arall yn creu patrwm fel nadroedd drwyddyn nhw (fel y lliw yng nghanol marblen) oedd y rhain. Wedi eu codi o hen safleoedd Celtaidd ac yn cael eu defnyddio gan ddewiniaid i greu swynion 'stalwm. Dim syniad pam "maen magl". Hola Robin Gwyndaf yn Sain Ffagan".

Fel Golygydd bach ufudd dyma holi Robin. Cewch weld ei ymateb yn y rhifyn nesaf.

Gogoniant Gwener



Y blaned Gwener, yw'r dotyn bychan ar waelod y llun! Tynnais y llun o ddrws blaen y ty, yn edrych i'r gorllewin, 7 y bore, Hydref 14, 2011.

Llun a sylw: Alun Williams

Cofnodion eraill am y blaned Gwener:

12 Awst 3: *Venus-Jupiter in conjunction-Star of Bethlehem* www.historyorb.com
6 Mehefin 1760 *in the morn there was a transit of the planet Venus over the sun's disc*

East Hoathly, Sussex

Diary of a village shopkeeper

3 Mehefin 1769:

The Endeavour expedition remained for three months on Tahiti. Its main object was to observe a Transit of Venus across the face of the sun...This was due on the morning of 3 June 1769, and there would be no other transit for the next hundred years (not until 1874). It was a unique chance to establish the solar parallax, and hence the distance of the sun from the earth. This calculation depended on observing the exact timing at which the silhouette of Venus first entered, then exited from, the sun's disc.

Holmes, R. (2008)

The Age of Wonder (Harper Press)

1769 - *A transit of Venus is followed five hours later by a total solar eclipse [yn yr Unol Daliaethau], the shortest*

such interval in history.

www.historyorb.com/

23 Ionawr 1798: *Bright sunshine, went out at 3 o'clock. The sea perfectly calm blue, streaked with deeper colour by the clouds....the crescent moon, Jupiter and Venus.*

Dyddiadur Dorothy Wordsworth

18 Chwefror 1798: *A sharp and very cold evening; first observed the crescent moon, a silvery line, a thready bow, attended by Jupiter and Venus in their palest hues.*

Alfoxden, Quantocks, Somerset:-Dyddiadur Dorothy Wordsworth

27 Chwefror 1798: *...A very bright moonlight night. Venus almost like another moon...*

Alfoxden, Quantocks, Somerset:-

1894: *Venus is both a morning star & evening star*

www.historyorb.com/

5 Chwefror 1962: *Sun, Moon, Mercury, Venus, Mars, Jupiter & Saturn within 16 degrees*

www.historyorb.com/

13 Ion 2007: *Two thirds of the Venus's southern hemisphere suddenly brightened as something triggered aerosols to form at a furious rate*

www.historyorb.com/

6 Mehefin 2012: *Transit of Venus (between Earth & Sun) occurs*

www.historyorb.com/

Y Costa Del Palmwydd



Ydych chi'n cofio'r llun hwn yn yr ORIEL neu ym Mwletin 7. Pryd daeth y palmwydd i Gymru gyntaf?

Ymhle mae o'n hadu i'r gwyllt? Dyma lun ohonno yn y



70au yn Llandudno. Dyma rai lluniau, a sylwadau ar balmwydd yn tyfu'n wyllt yng Nghymru a dderbyniwyd ers hynny. Gareth Pritchard biau'r rhan fwyaf. Gwesty Craigside Hydro oedd yno pan dynnwyd y llun uchod, ac



'roedd rhai o'r coed yna tua phymtheg oed bryd hynny. Fe wnaeth eira a rhew gaeaf 1982 dipyn o lanast, ond mae'r rhan helaethaf yn fyw ac yn iach!

Dyma lun hedyn

palmwydd (*Cordyline australis*) wedi egino'n wyllt ar ymyl y ffordd yn Llandudno. Mae hyn yn digwydd yn flynyddol er gwaetha'r ffaith bod Cyngor Sir Conwy yn chwistrellu chwynladdwr ar ymyl y ffordd. Maint y planhigyn yn y llun yn rhyw 2.5cm. Un o'r rhesymau pam bod palmwydd



(*Cordyline australis*) yn tyfu'n wyllt yw bod drudwyod yn heidio ar y coed yn ystod yr hydref ac yn 'sbydu'r' hadau. Mae rhai o'r rheini wedyn yn cael eu cario gan y gwynt ac yn egino.

(gweler llun drudwyod ar balmwydd)

Gareth Pritchard

Meddai Tom Jones: "Mi fyddai rhai yn gerddi y Wern ger Porthmadog pan oeddwn yn blentyn - marwodd y rhan fwyaf a chofiaf i ni blannu rhai newydd o flaen y Plas rhywdro yn nechrau 90au. Beth sydd wedi dod o'r rheini dim yn siwr. Cofiaf yr rhain [ar yr afon Dwyfor, Bwletin 7 llun lliw uchod] yn fychan iawn pan oeddwn yn crwydro yr afon Dwyfor cyn belled yn ol ar 1970au.

Stace NFBI (1997): "*Cordyline australis* Cabbage-palm. Intrad; much planted in W Br, Man, Ir and Cl, persistent in SW En, S Ir, Man and Cl, producing seedlings in Man, Cl and W Cornwall; New Zealand."

[Mae'n debyg bellach y gellir ychwanegu gogledd Cymru i'r rhestr (Gol.)]

Tywydd *llathachawsaidd*

17 Hyd 1851: Dechreuwd heddyw Hau Gwenith yn Parc ellis uchaf. Twm Siams a Thomas Rowe yn taflu dom. Madelodd Henry Edward a ni heddyw. Thomas a finnau yn tori drysi, cael treio stoppo'r gieir ir Gwenith. Buodd James fy mrawd yma yn edrych in helynt. Tywydd sych iachus. Gwynt o'r Nor.West cwmpodd ir S.West yn yr hwyr. Cymylau Bratiog trwy'r boreu; yn y prydawn daeth amrywiol fathau o gymylau : nid angen Cymylau Rhawnog. Glaswynion, **Llathachawsaidd** yn hwylio o'r Nor.West, ond y rhai isaf gyda'r Gwynt. Cochni, tywyll nos.

Cofnod o ddyddiadur Edward Evans, Sir Benfro



Cymylau Altostratus – sef haenau llwydion clytiog sy'n graddol dewychu nes bo'r haul yn graddol ddiffannu, cyn glaw fel arfer. Ceir sawl disgrifiad (gw. Am y Tywydd..., tud. 203 - 204):

Tua'r Gogledd = yr haul / lleud yn boddi. Yr awyr yn ceulo (h.y. patrwm fel llaeth yn suro fel yn y broses o wneud caws). Tua'r de = 'Os bydd 'caws a llath' ar y wybr, glaw yn agos (yn 'Casgliad o Lân Gwerin Sir Gaerfyrddin', Parch. DG Williams, Traf. Eisteddfod Gen. Llanelli, 1895). Dywedir '...caws a maidd' hefyd. Twm Elias]

Mat abominabl!



Penaos aozañ an tokoù-touseg *Cantharellus cibarius*
Meskit eoul hag amann en ur baelon domm, lakait ur chalotezenn troc'het munud da fritañ enni e-pad ur pennadig heb na vefe re domm an tan. Lakait ar skebell-touseg bet troc'het a dammoù er baelon ha meskit anezhe e-barzh. Posubl eo ouzhpennañ un tamm kignezenn malet munud goude ha neuze e vez ret lezel ar skebell-touseg da boazhañ dousigoù e-pad ur c'hard-eur bennak. Arabat ankouat lakaat pebr ha holen er fin. Posubl eo lakaat parisilh ivez. Servijit ar skebell-touseg war ur plad ha debrit anezhe gant bara-amann. kemerit ho amzer!

Menam, menam!

Cyfieithiad yn y rhifyn nesaf

“Pla” o wyfnod y cadno



“Tra’n cerdded ar 16 Hydref 2011 dros Esgair Fraith, Llanfair Clydogau, am bellter o haner milltir cyfrais 240 o ‘r siani flewog, i gyd yr un rhywogaeth, yn pori'r planhigion llysiâu duon bach. Roeddent yn flewog iawn gyda cylchoedd o ddau liw brown amdanynt. Credaf mai lindys gwlyfyn y cadno oeddynt. Nid oedd camera gennyf...Roeddwn wedi dod ar draws ychydig ar y Mynydd Bach y diwrnod cynt ac rwyf wedi dod ar eu traws yn gyffredin ar y tiroedd uchel”.Daeth neges arall wedyn: “Roedd yn rhaid cael diesel yn y car, felly es ymlaen gyda'r camera y tro hwn a dyma lun i Llên Natur o'r un man a dydd Sul. Roedd 10 yno ar ochor y ffordd heddiw o fewn 3 llath i'w gilydd”. [y llun uchod]

Ieuan Roberts

Dyma rai cofnodion eraill o'r un amser o'r flwyddyn:

Rhobell, Rhydmain: 10 Hydref 1977 *never seen so many fox moth caterpillars, 1 every 1-2 yards..llyfr cofnodion DB*

Morfa Harlech 11 Hydref 1977: *Fox moth caterpillar in Ammoph/Lotus/Bryum type area at Harlech point seen to be eating Erodium cic. also on Salix repens, also feeding on Rosa spinosissima near the golf course. Seems to be a good year for this species DB*

6 Hydref 2006 Gerallt Pennant yn rhyfeddu at yr holl wylunod y cadno ar y mynydd yn ddiweddar - wedi sylwi ar lawer fy hun [ai'r piwpa wylunaidd mae Gerallt yn cyfeirio ato yn fan hun tybed]

Mae'n debyg mai paratoi at aeafgysgu oedd rhain.


Trwyn y Fuwch



Llun: Alun “Williams

Ysgogwyd y drafodaeth isod gan yr eitemau ar “Y Wasg Gyntaf yng Nghymru”! (Gol.)

Enwau gwartheg ar Rhiwledyn, neu'r Gogarth Fach,



Llandudno. Trwyn y Fuwch, Carreg Llo, Porth Dyniewaid, Ogof Dyniewaid


Gareth Pritchard

Tybed beth yw'r cysylltiad arbennig â gwartheg [DB]?

Meddai Sion Roberts: Dyniewaid = y morlo llwyd?

diniewed y môr = morlo

Fynes-Clinton, O.H. 1913 "The Welsh Vocabulary of the Bangor District" (OUP)
Aeth Sion yn ei flaen i ddweud: "Mae Gareth wedi sylwi ar rhywbeth diddorol...Fe dynnodd y map fy llygad oherwydd y gwartheg...mae yn air cyffredin ar yr arfordir. ee Trwyn Pen Ychain ger Pwllheli. Pobol bugeilio gwartheg yw'r Celtiaid?... (Fel tylwyth y Massai yn Africa... *cattle obsessed*)... roedd yr estron yn gweld dreigiau (Worms Head, Great Orme) yn y tirwedd, roedd y Celtiaid yn gweld Gwartheg - y peth pwysicaf iddynt. 'Roedd yn hen arferiaid hela morloi am eu cig (esp yn yr Alban, gyda rhwyd, a rhaff horsehair)... efallai fod gwartheg weithiau yn 'wartheg môr', morloi? Mae'r bardd Ameirgen yn Lebor Gabala Erenn yn son am 'Gwarthaig Tethra' = pysgod"



Wrth groesi'r bont droed yng nghanol Bakewell welais hon yn bwyta aeron. Roedd yn ddi-afn, felly roedd hi'n hawdd tynnu'r llun yma.

Llun a sylw gan Jonathan Simcock



Debyg i law

Cartŵn gan Hywel Harris. Rwy'n credu iddo ymddangos yn Blodau'r Ffair o barchus goffadwriaeth.

Gyda diolch i Brynley Roberts

“Mae'n debyg i law”